# ASESU A RHEOLI RISG

F2 [DATE]

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

# Tabl Cynnwys


- **Asesu a Rheoli Risg** ........ 2
  - **Beth yw asesiad risg?** ........ 2
  - **Pryd fyddwn ni angen gwneud asesiad risg?** ........ 2
- **Y Broses Asesu Risg** ........ 3
  - **Amcangyfrif lefel y risg** ........ 4
  - **Templed Asesiad Risg yr Eglwys yng Nghymru** ........ 6

## Asesu a Rheoli Risg

Mae risg yn rhan o fywyd yr Eglwys yng Nghymru. Mae asesiadau risg yn helpu i nodi a oes mesurau diogelwch digonol ar waith i ddiogelu rhag niwed posibl a rheoli risg yw'r broses barhaus o ragweld peryglon a datblygu cynllun i liniaru'r bygythiad.

Ein prif swyddogaeth bob amser yw diogelu'r rhai sy'n agored i niwed – plant, oedolion mewn perygl a'r rhai sy'n agored i niwed yng nghyd-destun yr eglwys. Mae gweithgareddau ac amgylcheddau yn cynnwys risg bob amser, sy'n rhaid i ni ei asesu a'i reoli cystal â phosibl. Drwy reoli risg yn effeithiol byddwn yn diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a'n gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n heglwysi.

### Beth yw asesiad risg?

Asesiad Risg yw edrych ar weithgaredd a/neu amgylchedd i nodi peryglon (rhywbeth a allai achosi niwed) a risgiau posibl (tebygolrwydd a difrifoldeb y niwed posibl) i unigolion agored i niwed ac eraill ac yna meddwl beth fydd angen ei gyflwyno i ddileu neu leihau'r risgiau a nodwyd.

Peryglon yw'r pethau yn yr amgylchedd sy'n gallu achosi niwed e.e. gwifrau trydan rhydd, eitemau peryglus y gallai bysedd plant eu cyrraedd, cadeiriau wedi'u pentyrru'n wael, neu rannau o weithgaredd, yn enwedig oddi ar y safle, fel croesi'r ffordd, trefniadau trafnidiaeth neu gyfarpar chwarae. Gall pobl neu ymddygiadau hefyd fod yn beryglon.

Ar ôl nodi peryglon perthnasol mewn sefyllfa neu weithgaredd, bydd yr asesiad risg yn nodi pa mor debygol yw hi i rywun gael niwed ac, os bydd hynny'n digwydd, pa mor ddifrifol y gallai'r niwed hynny fod. Bydd gan rai pethau risg uwch nag eraill a dylid mynd i'r afael â'r risgiau uchel a nodwyd yn gyntaf gan fod gan y rhain y potensial i achosi'r niwed mwyaf. Yn ogystal â niwed corfforol i unigolyn, mae'n rhaid i asesiadau risg ystyried niwed emosiynol a niwed i'r sefydliad, yn cynnwys niwed i enw da.

### Pryd fyddwn ni angen gwneud asesiad risg?

Dylid cynnal asesiad risg ar gyfer pob gweithgaredd sy'n cynnwys grwpiau agored i niwed cyn iddynt ddigwydd. Os yw gweithgaredd yn un rheolaidd, dylid gwneud asesiad risg ohono ar y cychwyn ac yna ar gyfnodau rheolaidd i sicrhau diogelwch parhaus (o leiaf bob blwyddyn). Yn achos gweithgareddau sy'n cael eu cynnal unwaith yn unig, dylid gwneud asesiad risg ymhell o flaen llaw. Os yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal oddi ar y safle, rhan o'r asesiad fydd ymweld â'r lleoliad er mwyn nodi'r holl beryglon posibl ar y daith ac yn y lleoliad yn effeithiol.

Dylid cwblhau asesiadau risg ar gyfer pob digwyddiad neu weithgaredd perthnasol a'u cadw ar ffeil yn yr eglwys a'r Ardal Genhadaeth/Weinidogaeth. Dylai asesiadau risg fod ar gael i bawb sy'n rhan o'r digwyddiad neu'r gweithgaredd a dylid eu darparu at ddibenion archwilio. Dylid adolygu asesiadau risg yn barhaus a'u diweddaru fel y bo'r angen pan fydd amgylchiadau'n newid, neu wybodaeth newydd yn dod i'r fei sydd â'r potensial i newid lefel y risg.

Yn ogystal â digwyddiadau a gweithgareddau, gellir defnyddio asesiadau risg i nodi lefel risg a achosir gan unigolyn e.e. troseddwr yn mynychu'r eglwys o dan gytundeb diogelu.

**Y Broses Asesu Risg**

Bydd angen i chi ateb pum cwestiwn er mwyn nodi peryglon ac asesu risgiau gweithgaredd neu ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â pherson a fydd yna'n eich galluogi i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i reoli'r risg yn ôl y lefel o risg a nodwyd.

1. **Beth yw'r peryglon posibl?**
   Er enghraifft: croesi'r ffordd, dŵr agored, cerbydau (yn cynnwys fel teithwyr), ymddygiad heriol, gweithgareddau penodol (megis coginio neu gymryd rhan mewn chwaraeon neu gemau).

2. **Pa niwed allai ddigwydd?**
   Beth allai ddigwydd o ganlyniad i'r perygl?

3. **Pwy fydd yn bresennol ac mewn perygl o niwed o bosibl?**
   Does dim angen rhestru enwau unigolion – dim ond meddwl am y grwpiau o blant neu oedolion mewn perygl a'r staff sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd (yn cynnwys y rhai ag anableddau neu anghenion arbennig).

4. **Pa ffactorau lliniarol sy'n helpu i leihau'r risg?**
   Pa ffactorau sy'n gwneud y risg yn llai tebygol neu'n llai difrifol? Er enghraifft, efallai bod rhaid croesi ffordd ond bod modd defnyddio croesfan i gerddwyr sydd gerllaw.

5. **Beth yw lefel y risg?**
   Ar gyfer pob grŵp, beth yw'r tebygolrwydd a difrifoldeb posibl y niwed a allai ddigwydd?

6. **Pa gamau a gymerwyd i helpu i leihau'r risg?**
   Oes yna fesurau diogelwch wedi'u cymryd yn erbyn y risgiau a achosir gan y peryglon a nodwyd ac a restrwyd? Er enghraifft, a ddarparwyd y canlynol: gwybodaeth, cyfarwyddyd neu hyfforddiant digonol, systemau, gweithdrefnau neu bolisïau digonol yn cynnwys y Polisi Diogelu? Oes modd dileu'r risg? Os nad yw hynny'n bosibl, ydych chi wedi lleihau'r risg cymaint â phosibl yn ymarferol? Ydy hi'n bosibl cyflawni a chynnal y mesurau rheoli? Ydy'r mesurau diogelwch yn enghraifft o arfer da?

7. **Pa gamau pellach y gellir eu cymryd i leihau neu ostwng y risg?**
   Beth mwy y gellid ei wneud yn rhesymol ar gyfer y risgiau hynny nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol? Bydd angen rhoi blaenoriaeth i'r risgiau hynny sy'n effeithio ar nifer sylweddol o bobl a/neu a allai achosi niwed difrifol.

**Amcangyfrif lefel y risg**

Mae’r asesiad risg yn cynnwys dwy elfen: tebygolrwydd y risg ac effaith bosibl y risg.

Mae tebygolrwydd y risg yn cael ei fesur gan bum categori:

1. Annhebygol iawn
2. Annhebygol
3. Posibl
4. Tebygol
5. Tebygol iawn neu bendant

Mae effaith y risg hefyd yn cael ei fesur gan bum categori:

1. Dibwys neu Bitw
2. Bach neu Dderbyniol
3. Cymedrol
4. Arwyddocaol neu Sylweddol
5. Difrifol neu Annioddefol

Mae’r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i risg a aseswyd ym mhob un o’r pum categori effaith yn seiliedig ar y tabl canlynol.

| | |
|---|---|
| **Dibwys neu Bitw** | Dim angen gweithredu – dim angen cofnodi. |
| **Bach neu Dderbyniol** | Dim angen gweithredu, ond mae angen monitro a chofnodi i sicrhau bod mesurau rheoli’n cael eu cynnal. |
| **Cymedrol** | Dylid gwneud ymdrechion i leihau’r risg. Os yw risg yn gysylltiedig â chanlyniadau niweidiol bydd angen asesiad risg pellach. |
| **Arwyddocaol neu Sylweddol** | Ni ddylai’r gweithgaredd gychwyn neu barhau hyd nes bod y risg wedi’i leihau neu wedi ei ddileu. |
| **Difrifol neu Annioddefol** | Ni ddylai’r gweithgaredd gychwyn neu barhau hyd nes bod y risg wedi’i leihau’n sylweddol neu wedi ei ddileu. |

Fodd bynnag, mae’n bwysig ystyried tebygolrwydd ac effaith y risg cyn penderfynu ar ddifrifoldeb y risg a chreu cynllun rheoli risg. Mae’r matrics risg canlynol yn nodi sut y gall ystyried y cyfuniad o debygolrwydd ac effaith risg helpu i nodi un o’r pum math neu lefel o ddifrifoldeb risg:

1. Isel
2. Isel Canolig
3. Canolig
4. Canolig Uchel
5. Uchel

Matrics Risgiau (Tebygolrwydd x Effaith)

| | | Effaith | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | | Dibwys | Bach | Cymedrol | Sylweddol | Difrifol |
| | Tebygol iawn | ISEL CANOLIG | CANOLIG | CANOLIG UCHEL | UCHEL | UCHEL |
| | Tebygol | ISEL | ISEL CANOLIG | CANOLIG | CANOLIG UCHEL | UCHEL |
| | Posibl | ISEL | ISEL CANOLIG | CANOLIG | CANOLIG UCHEL | CANOLIG UCHEL |
| | Annhebygol | ISEL | ISEL CANOLIG | ISEL CANOLIG | CANOLIG | CANOLIG UCHEL |
| | Annhebygol Iawn | ISEL | ISEL | ISEL CANOLIG | CANOLIG | CANOLIG |

**Asesiad Risg Dynamig**

Mae asesiad risg dynamig yn broses barhaus o ddadansoddi amgylchedd i nodi peryglon a dileu neu liniaru risg wrth gwblhau tasg. Nid yw asesiadau risg dynamig yn disodli asesiadau risg ysgrifenedig ffurfiol ond maen nhw'n darparu proses ategol i nodi peryglon nad oedd modd eu rhagweld pan gynhaliwyd yr asesiad risg cyntaf neu sy'n newid neu esblygu yn ystod y gweithgaredd. Mae asesiadau risg dynamig yn darparu adnodd hyblyg ar gyfer addasu i amgylcheddau sy'n newid a bygythiad sy'n datblygu. Gellir cymryd camau yn syth i ddileu neu leihau'r bygythiad a nodwyd gan yr asesiad risg dynamig a gellir diweddaru'r asesiad risg ysgrifenedig ffurfiol fel bo angen i adlewyrchu'r wybodaeth newydd.

**Templed Asesiad Risg yr Eglwys yng Nghymru**

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

## TEMPLED ASESIAD RISG

Asesiad Risg ar gyfer: ………………………………………………………………………..……………………………………………………

Eglwys ac Ardal Weinidogaeth/Genhadaeth: …………………………………………………………………………………………

Cwblhawyd gan: ……………………………………………………………………………………………………………………

Llofnod: ……………………………………………………………………………… Dyddiad: …...………………………………………………

| PERYGL | Beth allai ddigwydd? | Pwy allai gael ei frifo? | Ffactorau Lliniaru | Lefel y Risg (tebygolrwydd v effaith) | Camau gweithredu a gymerwyd eisoes i leihau'r risg | Camau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen i reoli'r risg[1] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

[1] mae'n bwysig nodi pwy fydd yn cymryd y cam gweithredu i leihau'r risg a dyddiad cwblhau'r cam gweithredu a nodi pryd mae wedi digwydd

Dyddiad Adolygu:
……………………………………………………………………………………………………………………………………

[1] mae'n bwysig nodi pwy fydd yn cymryd y cam gweithredu i leihau'r risg a dyddiad cwblhau'r cam gweithredu a nodi pryd mae wedi digwydd